# SCHEDULE

article 11(6)(c)

## Form of nomination of candidates in Welsh

Ffurflen 6

**Enwebu ymgeiswyr**

Etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu *[rhowch enw'r ardal heddlu]*

Dyddiad yr etholiad..........................................20.........

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, ac yn unigolion â hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ac yn preswylio fel arfer yn yr ardal heddlu hon, yn enwebu'r unigolyn y mae ei enw'n ymddangos isod fel ymgeisydd i fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu *[rhowch enw'r ardal heddlu]*

| Teitl | Cyfenw'r ymgeisydd | Enwau eraill (yn llawn) | Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin (os oes un) | Enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin (os oes un) | Disgrifiad (os oes un) (ar gyfer y papur pleidleisio - dim mwy na chwe gair) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr/Mrs/Miss/Ms Dr/Arall | | | | | |

<table>
<tr><td rowspan="2">Llofnod</td><td rowspan="2">Enw mewn prif lythrennau</td><td rowspan="2">Ardal Bleidleisio (awdurdod lleol)/ (etholaeth)</td><td colspan="2">Rhif Etholiadol</td></tr>
<tr><td>Dosbarth Etholiadol</td><td>Rhif</td></tr>
<tr><td>Cynigydd</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Eilydd</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, a ninnau'n etholwyr llywodraeth leol yn ardal heddlu [rhowch enw'r ardal heddlu] drwy hyn yn cydsynio i'r enwebiad uchod.</td></tr>
<tr><td>1.</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>2.</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

1 Dylai ymgeiswyr ac asiantau etholiadol ddarllen y rheolau ar gyfer llenwi papurau enwebu a darpariaethau eraill sy'n gysylltiedig ag enwebu ac ernesau a geir yn Rheolau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

2 Pan fo ymgeisydd yn cael ei adnabod yn gyffredin yn ôl rhyw deitl, gall gael ei ddisgrifio â'i deitl fel petai'n rhan o'i gyfenw.

3 Pan fo ymgeisydd fel arfer yn defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw enw arall sydd ganddo, bydd yr enw a ddefnyddir yn gyffredin yn ymddangos ar y papur enwebu yn hytrach nag unrhyw enw arall.

4 Bydd y papur pleidleisio yn dangos yr enw arall os yw Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu yn meddwl a) ei bod yn debygol y gall yr enw a ddefnyddir yn gyffredin gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu b) bod yr enw a ddefnyddir yn gyffredin yn anweddus neu'n sarhaus.

4A Mae'n rhaid nodi'r ardal bleidleisio. Yr awdurdod lleol fydd yn gwneud hynny, oni bai y bydd etholiad cyffredin ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael ei gyfuno ag etholiad cyffredinol Cynulliad Cymru. Yn yr achos hwnnw, etholaeth y Cynulliad fydd yn ei nodi.

5 Rhif etholiadol unigolyn yw ei rif ar y gofrestr etholiadol i'w defnyddio yn yr etholiad, gan gynnwys llythyren unigryw'r dosbarth etholiadol seneddol y mae wedi'i gofrestru ynddo.

6 Ni chaiff etholwr gyflwyno mwy nag un papur enwebu ar gyfer yr un etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

7 Yn y ffurflen hon ystyr "etholwr"

a) yw unigolyn y mae ei enw wedi'i gofrestru yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol dan sylw ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi rhybudd o etholiadau, a

b) yn cynnwys unigolyn a ddangosir yn y gofrestr i fod yn iau na'r oedran pleidleisio os (ond dim ond os) yw'n ymddangos o'r gofrestr y bydd ef neu hi o oedran pleidleisio ar y dyddiad a bennwyd ar gyfer yr etholiad.

8 Fodd bynnag, ni all unigolyn sydd â chofnod dienw yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol enwebu ymgeisydd ar gyfer yr etholiad.

Gall ymgeisydd a gefnogir gan dystysgrif awdurdodiad a lofnodwyd gan Swyddog Enwebu plaid wleidyddol (neu rywun ar ei ran) ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad a ganiateir gan y dystysgrif honno ac a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol. Gall ymgeisydd sefyll ar ran dwy blaid wahanol neu fwy a defnyddio disgrifiad cofrestredig ar y cyd os ceir tystysgrif awdurdodiad i'w gefnogi gan bob un o'r pleidiau. Neu gall unrhyw ymgeisydd ddefnyddio'r disgrifiad "Annibynnol" neu adael y blwch disgrifiad yn wag.